**GORCHYMYN GWYRIAD LLWYBR CYHOEDDUS**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 17 PORTHCAWL) DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 1 2025**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (“yr Awdurdod”) dan adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 oherwydd y mae'n fodlon bod angen dargyfeirio’r llwybr troed sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn er mwyn galluogi gwaith datblygu yn unol â chaniatâd cynllunio a ddyfarnwyd dan Rhan III, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:-

Cais cynllunio llawn ar gyfer datblygu tŷ annedd deulawr newydd ar wahân gyda thair ystafell wely wrth ymyl 15 The Burrows, Porthcawl,
CF36 5AJ (P/23/119/FUL).

Drwy’r Gorchymyn hwn:

1. Bydd y llwybr cerdded dros y tir mewn llinell fras ddu ar y map atodedig ac sy’n cael ei ddisgrifio yn Rhan 1 o Atodlen y gorchymyn hwn ("yr Atodlen") yn cael ei wyro fel y nodir isod.

2. Bydd priffordd amgen yn cael ei greu i fodlonrwydd rhesymol yr awdurdod er mwyn disodli'r llwybr troed fel y'i nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen i’r Gorchymyn hwn ac sydd wedi'i nodi mewn llinell doredig ddu ar y map atodedig.

3. Bydd dargyfeirio'r llwybr troed yn cael effaith ar y dyddiad y mae'r Cyngor yn ardystio bod telerau Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi'u cydymffurfio.

4. Bydd y gwaith canlynol yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r briffordd a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen: -

    i. Bydd hyd D-E-F-G y dargyfeiriad yn 1.5 metr o led a bydd yn cynnwys arwyneb tarmacadam.

    ii. Bydd arwyddion (dwyieithog) yn cael eu gosod o'r briffordd ym Mhwynt D.

5. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd am y Gorchymyn dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn hwn.

6. Pan fo cyfarpar o dan, yn, ar, dros, ar hyd neu ar draws y llwybr, yn union cyn dyddiad dargyfeirio’r llwybr, sy'n perthyn i ymgymerwyr statudol er mwyn cyflawni eu hymrwymiad, bydd yr ymgymerwyr yn parhau i fod â'r un hawliau o ran y cyfarpar ag a fyddai ganddynt wedi hynny.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR )
BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR yma )
ar 2025 )

……………………………. Llofnodwr Awdurdodedig

## ATODLEN

## RHAN 1
## DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU'R FFORDD I GAEL EI DDARGYFEIRIO


Mae'r rhan o Lwybr troed 17 Porthcawl sydd i'w ddargyfeirio yn dechrau wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 84097743), ac yn mynd tua'r dwyrain am tua 52 metr i bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 84147743) ac yna'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain am tua 8 metr hyd at bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 84147743).

Mae cyfanswm hyd llwybr troed 17 i'w ddargyfeirio tua 60 metr ond nid yw'r lled wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd yn y Datganiad Diffiniol.

## RHAN 2
## DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU FFORDD AMGEN

Mae'r llwybr yn cychwyn wrth bwynt D (Cyfeirnod Grid SS 84097744) ac yn parhau tua'r dwyrain am oddeutu 10 metr hyd at Bwynt E (Cyfeirnod Grid SS 84107744) cyn parhau i gyfeiriad y dwyrain i'r de-ddwyrain am tua 8 metr hyd at Bwynt F (Cyfeirnod Grid SS 84107743), ac yna'n parhau i gyfeiriad y dwyrain am tua 34 metr hyd at bwynt G (Cyfeirnod Grid SS 84147743) cyn troi a rhedeg i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am tua 4 metr i bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 84147743).

Hyd bras y llwybr troed yw 56 metr gyda lled o 1.5 metr ac fe'i dangosir gan linell ddu doredig ar y Map Trefn rhwng y pwyntiau y cyfeirir atynt.




Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Cyngor Bwrdeistref Sirol PenyBont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB
Ffôn (01656) 643643

**ORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257 A PHARAGRAFF 1 ATODLEN 14 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 17 PORTHCAWL) DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 1 2025**

N
W E
S

Graddfa 1:500

Dyddiad: 31/12/2024

**©Crown Copyright and database right 2024. Ordnance Survey AC0000851951. Use of this data is subject to terms and conditions.**

**©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2024. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 17 PORTHCAWL) DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 1 2025**

K Watson,
Prif Swyddog y Gwasanaethau Rheoliadol, AD a Chyfreithiol,
Polisi Adnoddau Dynol a Chorfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig,
Angel Street,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB.

Cyfeirnod Cyfreithiol: HIG001-1132